# Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU – PECYN CYMORTH I AMGUEDDFEYDD

## CYNORTHWYO AMGUEDDFEYDD I GYFLAWNI AR Y CWRICWLWM NEWYDD AC AR RANNU HANES POBL DDU, ASIAIDD AC ETHNIG LEIAFRIFOL

CYNNWYS


1. CYFLWYNIAD 2
   - Trosolwg 2
   - Pam ddylwn i wneud hyn yn fy amgueddfa 2

2. Y CWRICWLWM A'R ARWAP 3
   - Meysydd allweddol y cwricwlwm newydd 3
   - Cynefin 3
   - Chwe maes dysgu a phrofiad 4
   - Pedwar diben 4
   - Hanes pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 5
   - Astudiaeth Achos 1: Cynefin – Ein Croeso 5
   - Yr ARWAP 6

3. EICH AMGUEDDFA A'R HYN I'W WNEUD GYDA HI 6
   - Cymrwch y blaen 6
   - Yr hyn y mae gofyn i chi ei wybod 7
   - Archwilio eich darpariaeth gyfredol 7
   - Archwilio eich safle a'ch sefydliad 8
   - Archwilio eich staff a'ch gwirfoddolwyr 8
   - Dylunio deunydd addysgol newydd 9
   - Hanes pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a'ch amgueddfa 10
   - Yr hyn i edrych amdano yn eich amgueddfa 11
   - Sensitifrwydd diwylliannol a phriodoldeb oed wrth ddatblygu adnoddau amgueddfa 11
   - Astudiaethau Achos 2 a 3 – Proud Valley a New World 12
   - Astudiaeth Achos 4 – Pwy oedd Joe Taylor 14
   - Iaith – geiriau a thermau 15

4. MONITRO A GWERTHUSO 16

5. HYRWYDDO EICH AMGUEDDFA I YSGOLION 16

6. TERMAU AC YMADRODDION 17

7. ADNODDAU A DOLENNI 21

8. TEMPLED MONITRO A GWERTHUSO CHWE MIS 24

# 1. CYFLWYNIAD

## TROSOLWG

Mae'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru wedi newid. Bellach mae gofyniad i ddysgu fod yn fwy hyblyg, gan annog athrawon i ehangu cyfleoedd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r cysyniad o gynefin yn sail i'r holl addysgu, sy'n golygu bod yn rhaid i ddysgu ar draws pob pwnc, ar ryw lefel, gynnwys elfennau lleol. Mae cynnwys hanes Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn orfodol yn y cwricwlwm newydd.

Ynghyd â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ARWAP), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sectorau treftadaeth a diwylliannol yng Nghymru gynrychioli hanes a diwylliannau cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn gywir.

*Nid yw'r cwricwlwm newydd yn seiliedig ar ffeithiau yn unig. Mae gwybodaeth graidd yn sail iddo, ond cyfunir hyn â datblygu'r sgiliau a'r profiadau sydd eu hangen ar bobl ifanc i fyw bywydau moesegol, gwybodus.*

Mae amgueddfeydd yng Nghymru mewn sefyllfa ddelfrydol i gefnogi ysgolion yn y gwaith hwn, a bydd y pecyn cymorth hwn yn eich helpu chi fel gweithwyr amgueddfeydd proffesiynol i:

- Deall y cwricwlwm newydd.
- Gweithio gydag ysgolion i'w cefnogi wrth iddynt addysgu'r cwricwlwm newydd.
- Deall a chyflawni'r ARWAP.
- Deall sut y gall eich casgliadau gynorthwyo i addysgu hanes pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.
- Gwerthuso eich rhaglen addysg bresennol a/neu ddatblygu un newydd.
- Dwyn eich staff a'ch gwirfoddolwyr i mewn i'r gwaith hwn.
- Estyn allan i ysgolion.
- Chwilio am ragor o wybodaeth.

### Pam ddylwn i wneud hyn yn fy amgueddfa i

- Cryfhau perthynas sy'n bodoli eisoes ag ysgolion – neu feithrin un newydd.
- Ailasesu eich deunydd dysgu yn unol â'r cwricwlwm newydd.
- Edrych ar eich casgliadau o'r newydd yn unol â'r ARWAP.
- Cefnogi achrediad.
- Sicrhau bod eich amgueddfa'n aros yn rhan hanfodol o'ch cymuned, i'w holl bobl.
- Cynyddu nifer yr ymwelwyr.
- Cynyddu incwm.
- Atgyfnerthu ymgysylltiad cymunedol.

Er mwyn eich ysbrydoli ynghylch yr hyn yr hoffech ei wneud, mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys astudiaethau achos a dolenni i syniadau a gwybodaeth. Sylwch, fodd bynnag, (o fis Mai 2023) bod y newidiadau i'r cwricwlwm a'r ARWAP yn newydd i bawb ac, felly, prin yw'r enghreifftiau cyfredol. Mae hwn yn waith sy'n mynd rhagddo i bob un ohonom, ond bydd y pecyn cymorth hwn yn eich helpu ar eich taith.

## 2. Y CWRICWLWM A'R AWRAP

Nid ymwneud â phlant a phobl ifanc yn dysgu ffeithiau yn unig yw nod y cwricwlwm newydd ond, yn hytrach, eu hannog i feddwl am y byd, y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, a sut y gallant gael effaith gadarnhaol arno.

### Meysydd allweddol y cwricwlwm newydd

Mae pedwar maes allweddol o'r cwricwlwm y mae'n bwysig i staff amgueddfeydd wybod amdanynt. Bydd bod yn gyfarwydd â'r rhain yn fodd i chi gael sgyrsiau ystyrlon gydag athrawon ynghylch sut y gall eich gwrthrychau a'ch casgliadau gefnogi eu gwaith. Y pedwar maes yw:

- Cynefin
- Chwe Maes Dysgu
- Pedwar diben
- Hanes pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

*Y cwestiwn fydd yn mynd trwy feddyliau athrawon pan fyddwch yn siarad â nhw fydd 'Sut mae hyn yn fy helpu i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd'.*

Cliciwch YMA am drosolwg o'r cwricwlwm newydd gan Lywodraeth Cymru. Fersiwn hawdd ei ddarllen YMA.

Ar ddiwedd yr adran hon mae **astudiaeth achos** sy'n dangos sut y gall prosiect partneriaeth ysgol gwmpasu'r pedwar maes a nodir uchod.

### Cynefin

Cynefin yw ein bro neu'r man lle teimlwn ein bod yn perthyn (gweler yr Eirfa am ddiffiniad ehangach). Mae hyn yn bwysig oherwydd ei fod yn annog ysgolion i bersonoli'r cwricwlwm ar gyfer eu disgyblion, fel y gallant wneud cysylltiadau ystyrlon â'u dysgu.

YMA amlinella athrawon yn Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt ger Abertawe yr hyn y mae cynefin yn ei olygu iddyn nhw. Yr hyn y maent yn ei ddweud am y cwricwlwm newydd:

> *"Bydd ein dysgwyr yn cael y cyfleoedd i ddod yn gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith, yn ogystal â chyfleoedd i ddod yn ddinasyddion cyfrifol, wrth iddynt ymgysylltu'n feirniadol â heriau a chyfleoedd lleol, cenedlaethol a byd-eang ddoe a heddiw a cheisio dychmygu dyfodol posibl. Trwy'r amser, byddant yn cael eu hannog i feddwl am sut y gallan nhw eu hunain gymryd camau cadarnhaol i wella bywydau pobl yn eu cynefin, yng Nghymru ac yn y byd ehangach."*

## Chwe Maes Dysgu a Phrofiad

Yn hytrach nag addysgu pynciau unigol megis mathemateg, daearyddiaeth, hanes a cherddoriaeth, maent bellach wedi'u dwyn ynghyd i ffurfio dull mwy integredig o ddysgu. Bydd athrawon nawr yn dyfeisio gwersi a phrosiectau sy'n cwmpasu pob maes pwnc. Dywed Llywodraeth Cymru y bydd hyn yn meithrin dealltwriaeth fwy soffistigedig o'r cyd-destun, yn hytrach na chanolbwyntio ar ffaith yn unig.

Sgroliwch i lawr tudalen Llywodraeth Cymru YMA i gael trosolwg o'r meysydd dysgu a phrofiad. Ceir crynodeb yma (dim mewn unrhyw drefn blaenoriaeth):

| Dyniaethau | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
|---|---|
| Mae'r dyniaethau'n ganolog i ddysgwyr ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus o Gymru a'r byd. Bydd dysgwyr yn archwilio creadigrwydd dynoliaeth ar draws disgyblaethau megis hanes, gwleidyddiaeth, daearyddiaeth, cymdeithaseg, economeg a chrefydd, ynghyd ag effaith y rhain ar y byd. | Annog dealltwriaeth o wahanol ieithoedd a datblygu sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. |
| **Celfyddydau mynegiannol** | **Mathemateg a rhifedd** |
| Yn annog dysgwyr i archwilio materion a straeon trwy gelf, dawns, drama, ffilm a chyfryngau digidol a cherddoriaeth. | Yn cefnogi dysgwyr i ddatrys problemau mewn cyd-destunau byd go iawn, yn eu helpu gyda meddwl yn feirniadol ac yn eu hannog i gydweithio. |
| **Gwyddoniaeth a thechnoleg** | **Iechyd a lles** |
| Nid yn unig dysgu am ddisgyblaethau craidd bioleg, cemeg, cyfrifiadureg, dylunio a thechnoleg a ffiseg, ond am ddefnyddio'r wybodaeth honno i werthuso a gwella'r byd o'u cwmpas. | Helpu dysgwyr i ddatblygu'r gallu i lywio cyfleoedd a heriau bywyd. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i archwilio materion, datblygu gwydnwch ac empathi ac i fynegi syniadau ac emosiynau yn hyderus. |

## Pedwar diben

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pedwar diben y cwricwlwm newydd. Cliciwch YMA am fodel dwyieithog sy'n rhoi trosolwg o'r dibenion. Rhoddir crynodeb isod.

Bydd ein pobl ifanc yn gallu:

| Dysgwyr uchelgeisiol, galluog | Unigolion iach a hyderus |
|---|---|
| Egluro syniadau, ymgymryd â gwaith ymchwil a chyfathrebu'n effeithiol. | Ffurfio perthynas gadarnhaol ac mae ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i reoli bywyd pob dydd yn annibynnol. |
| **Cyfranwyr mentrus, creadigol** | **Dinasyddion moesegol a gwybodus** |
| Meddwl yn greadigol ac adnabod a manteisio ar gyfleoedd. | Ymwneud â materion cyfoes gan ddefnyddio gwybodaeth a gwerthoedd a pharchu hawliau eraill mewn cymdeithas amrywiol |

Mae'r pedwar diben yn pwysleisio uchelgais y cwricwlwm newydd, sef paratoi plant a phobl ifanc i fod yn ddinasyddion gwybodus, moesegol y byd.

### Hanes pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

Pam fo hanes Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol bellach yn orfodol yn y cwricwlwm newydd:

Mae Cymru yn dod yn genedl gynyddol amrywiol. Daw deuddeg y cant o'r holl ddysgwyr yng Nghymru dros bump oed o gefndiroedd ethnig leiafrifol (data o 2019). Mae'r ganran yn amrywio'n sylweddol o gwmpas y wlad, o 34.4% yng Nghaerdydd i 4.1% ar Ynys Môn a phrin fod un ysgol yng Nghymru heb rai dysgwyr na staff ethnig amrywiol.

Lluniodd gweithgor, a gadeiriwyd gan yr Athro Charlotte Williams OBE, adroddiad i Lywodraeth Cymru a nododd lawer o fethiannau yn yr hen gwricwlwm o ran cefnogi dysgu a datblygiad pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol. Canfu'r adroddiad fod anghydraddoldeb hiliol yn yr amgylchedd addysgol wedi arwain at gyrhaeddiad gwael gydol oes. Roedd yr adroddiad yn nodi bod:

*"Myfyrwyr o gefndiroedd lleiafrifol eisiau i hanes sy'n berthnasol iddyn nhw a'u bywydau a'u hanes gael eu dysgu fel rhan o hanes Cymru/Prydain yn hytrach nag ar wahân."*

*"Dylai dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifol ddisgwyl profiad dysgu cadarnhaol a chyfoethog."*

Nid ar gyfer lleiafrifoedd ethnig yn unig mae'r newid hwn. Mae'r cwricwlwm newydd yn pwysleisio y dylai pob dysgwr gael y cyfle i archwilio profiadau a chyfraniadau amrywiol grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae amgueddfeydd mewn sefyllfa ddelfrydol i gefnogi'r dysgu hwn.

### Astudiaeth Achos 1: 'Cynefin – Ein Croeso'

Prosiect cydweithredol dan arweiniad Y Neuadd Les, Ystradgynlais yw *'Cynefin – Ein Croeso'*. Mae'n archwilio mewnfudo lleol dros amser. Gan ddefnyddio gwaith ymchwil, cydweithio a dysgu seiliedig ar sgiliau, dysgodd disgyblion am effaith gadarnhaol ffoaduriaid. Mae'r prosiect yn ymgorffori cynefin, y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, y pedwar diben a hanes ethnig leiafrifol.

Cynhyrchodd dysgwyr ddau fideo byr ar fewnfudwyr yn eu hardaloedd. Archwiliodd un stori ceidwad adar lleol o Syria (*Uncle Ahmad's Canaries)* a'r llall arlunydd Pwylaidd (*Cynefin*).

Roedd cryfderau'r prosiect hwn yn cynnwys nifer y partneriaid, cyllid digonol, dyfnder gwaith ymchwil hanesyddol ac ystod eang o brofiadau dysgu i'r disgyblion. Roedd y prosiect hwn yn bodloni'r holl Feysydd Dysgu ac yn defnyddio cynefin i osod hanes ethnig leiafrifol yn ganolog i'w gwaith.

*"Mae wedi bod yn gyfle gwych i'r plant eu helpu i dderbyn pobl newydd i'w cymunedau."*

*"Doeddwn i erioed yn gwybod y gallai hanes fod yn gymaint o hwyl. Dysgais gymaint am sut i adrodd straeon pwysig."*

Partneriaid: Ysgolion cynradd ac uwchradd, Ysgol Maesydderwen ac Ysgol Dyffryn y Glowyr, a theuluoedd lleol o Syria.

Cyllid: [Addysg Ffilm | Ffilm Cymru]

Ymchwil: I gynorthwyo gyda'u gwaith, archwiliodd y dysgwyr nifer o gofnodion hanesyddol ac arteffactau. Dyma le gallai amgueddfeydd gefnogi llawer o brosiectau partneriaeth ysgolion.

Sgiliau dysgu: Gwaith ymchwil hanesyddol, gwneud ffilmiau, ysgrifennu sgriptiau, cerddoriaeth, cydweithio.

**Perthnasedd i amgueddfeydd**: Mae'r prosiect hwn yn amlygu sut mae'r cwricwlwm newydd yn annog ysgolion i feddwl yn greadigol am sut y maent yn archwilio'r gorffennol. Gallai amgueddfeydd weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, canolfannau cymunedol a phobl greadigol leol i gynhyrchu prosiectau tebyg.

Cliciwch yma i weld fideo byr (6 munud) ar Creu Cynefin – Croeso.

### Yr ARWAP

Roedd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi'i hamseru'n ddelfrydol i gyd-fynd â chyflwyno'r cwricwlwm newydd. Nod y cynllun yw mynd i'r afael â hiliaeth drwy weithredu cadarnhaol ac annog ei holl ddinasyddion i weithio ar y cyd i greu 'Cymru fwy cyfartal'. Mae'r cynllun yn rhoi cyfrifoldeb ar sefydliadau treftadaeth a diwylliannol i edrych ar eu polisïau, gweithdrefnau ac arferion gwaith, gan nodi y dylent:

> "… cydnabod yn llawn eu cyfrifoldeb am osod y naratif hanesyddol, hyrwyddo a chyflwyno adroddiad cytbwys, dilys a datwladychol o'r gorffennol, un sy'n cydnabod anghyfiawnder hanesyddol ac effaith gadarnhaol cymunedau lleiafrifoedd ethnig."

Mae'r ARWAP yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff treftadaeth a diwylliannol adrodd ar sut y byddant yn adolygu ac yn ailgynllunio naratifau yn eu safleoedd, mewn ffyrdd a gaiff eu llywio gan hanes a phrofiadau bywyd cymunedau lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru. Bydd eich gwaith yn helpu eich amgueddfa i gyflawni'r maen prawf hwn.

## 3. EICH AMGUEDDFA A'R HYN I'W WNEUD GYDA HI

Bydd yr adran yn eich cynorthwyo i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a'r ARWAP yn eich safle. Mae'n rhoi syniadau, cysylltiadau ac astudiaethau achos i'ch helpu i asesu'r hyn sydd gennych, ystyried beth i'w newid a datblygu strategaethau a rhaglenni newydd ar gyfer ysgolion.

### Cymrwch y blaen

Mae llawer o'r sgyrsiau heriol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd rhwng staff yr amgueddfa ac athrawon i'w priodoli i'r disgwyliadau nad ydynt yn cael eu bodloni ar y naill ochr na'r llall. Mae athrawon eisiau adnoddau yn barod ar eu cyfer ac mae staff amgueddfeydd eisiau i athrawon gael dealltwriaeth gliriach o'r hyn y gall amgueddfeydd ei gynnig.

Mae Kate Fellows, Pennaeth Dysgu a Mynediad Amgueddfeydd ac Orielau Leeds, yn crynhoi rhwystredigaeth llawer:

> “Efallai y bydd athrawon yn eich ffonio chi i ddweud ‘Pa adnoddau sydd gennych chi ar Windrush? Roeddem yn meddwl y byddem yn ychwanegu hynny i mewn i arallgyfeirio ein cwricwlwm’. [Nid yw sgyrsiau fel y rhain] yn mynd i’r afael â rhai o’r newidiadau ehangach, dyfnach yr hoffem gefnogi ysgolion i’w gwneud gan ddefnyddio dysgu diwylliannol.”

Fodd bynnag, fel y mae Kate yn nodi, mae'n agoriad o leiaf ar gyfer sgwrs fwy adeiladol am wneud newidiadau gyda'n gilydd. Mae erthygl Kate YMA yn nodi nifer o gamau y gallwch eu cymryd i feithrin perthynas gadarnhaol ag ysgolion. Dyma grynodeb o’i hargymhellion.

Cymrwch y blaen. Cysylltwch â'ch ysgolion a siaradwch yn uniongyrchol ag athrawon a gofynnwch iddynt:

- Pa themâu y maen nhw'n eu harchwilio?
- Beth yw’r bwriad y tu ôl i’r cwricwlwm y maent yn ei greu?
- Lle mae'r perthnasedd lleol i ddisgyblion yn hyn?
- Beth maen nhw eisiau ei gyflawni?
- Lle mae'r dysgu?
- Gyda phwy y byddant yn bartner i ddyfnhau'r dysgu?

Yn eich sgyrsiau gydag athrawon, defnyddiwch eiriau ac ymadroddion o'r cwricwlwm newydd. Byddant yn uniaethu â'r rhain yn gyflym iawn.

Bydd siarad yn uniongyrchol ag athrawon am eu gwaith yn cynllunio’r cwricwlwm yn eich helpu i ganolbwyntio ar sut i ddefnyddio'ch gwrthrychau i ddatblygu darpariaeth ddysgu newydd yn eich safle.

*Mae’r cwricwlwm newydd yn symud oddi wrth ddysgu seiliedig ar bynciau i ddull mwy thematig. Gofynnwch i athrawon pa themâu maen nhw wedi’u dewis a sut maen nhw’n eu harchwilio. Defnyddiwch y wybodaeth hon i nodi sut y gall eich gwrthrychau eu cynnal.*

## Yr hyn y mae gofyn i chi ei wybod

- Beth sydd gennych ar hyn o bryd.
- Beth sydd angen i chi ei gael.
- Beth fydd yn eich helpu i gyflawni hyn.
- Cefnogaeth sefydliadol a staff.

## Archwilio eich darpariaeth addysgol gyfredol

Beth ydych chi'n ei ddarparu ar hyn o bryd ar gyfer ymweliadau / ymgysylltiadau?

Gallai hyn gynnwys:

- Taflenni gweithgaredd dan arweiniad athro
- Taflenni gweithgaredd dan arweiniad amgueddfa

- Rhaglen dan arweiniad amgueddfa
- Blychau allgymorth
- Gwybodaeth archebu (argraffu/staff gweinyddol/ar-lein)
- Adnoddau ar-lein

  Mae hwn yn gyfle gwych i ddiweddaru eich darpariaeth. Gwiriwch nhw i ganfod:

- Y dyddiad y cawsant eu cynhyrchu neu eu diwygio ddiwethaf
- Yr iaith a ddefnyddir (gweler Iaith t.15)
- Sut maent yn cydymffurfio â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd
- Tystiolaeth o gynefin
- Tystiolaeth o hanes Pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol

### Archwilio eich safle a'ch sefydliad

- Beth sydd gennych chi sy'n bodloni'r cwricwlwm newydd, hanes lleiafrifol ac ARWAP? Meddyliwch yn greadigol am hyn – efallai'n wir fod gennych wrthrychau nad oeddech yn eu hystyried yn briodol o'r blaen.
- - Gweler isod am arweiniad ar hyn.
- Cynhwyswch eich safle cyfan – meddyliwch am labeli, arwyddion a phaneli dehongli.
- Beth yw'r cyfleoedd i'r sefydliad a ddaw yn sgil y gwaith hwn. Sut y byddwch yn manteisio arnynt?
- - Edrychwch ar weledigaeth a datganiadau cenhadaeth eich sefydliad. Dylai'r rhain gefnogi'r gwaith hwn. Os nad ydynt, siaradwch â'ch uwch-reolwyr.
- - Efallai y bydd gan rai o'ch cydweithwyr arbenigedd y gallwch ei ddefnyddio.
- Beth yw'r *heriau* i'r sefydliad a ddaw yn sgil y gwaith hwn? Sut y byddwch chi'n rheoli heriau neu feysydd o wrthwynebiad?
- - Nodwch beth yw'r heriau hyn ac aseswch pa rai y gallwch fynd i'r afael â nhw eich hun a pha rai y mae angen cymorth ychwanegol arnoch ar eu cyfer. Gallai'r rhain gynnwys mynediad cyfyngedig at wybodaeth neu wrthwynebiad staff a'r sefydliad.

### Archwilio eich staff a'ch gwirfoddolwyr (gan gynnwys chi'ch hun)

- Ydyn nhw i gyd yn gwybod beth sy'n digwydd? Ydyn nhw i gyd yn cymryd rhan yn y broses? Lle mae'r bylchau mewn gwybodaeth a beth ydyn nhw? Sut byddwch chi'n gwreiddio newid?
  - Trafodwch y mater mewn cyfarfodydd staff a sesiynau hyfforddi.
  - Gadewch daflenni nodiadau / atgoffa ar fyrddau ystafelloedd te neu hysbysfyrddau staff.
  - Gwahoddwch staff i ymuno â'ch adolygiadau cynllunio, eich gweithgareddau a'ch sgyrsiau.
  - Ceisiwch gymorth uwch-reolwyr i groesawu newid.
  - Chwiliwch am gyrsiau neu weithdai i'w cefnogi i ddysgu am y gwaith hwn neu i'w gyflawni
  - Pa grwpiau neu rwydweithiau cymheiriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y gallwch chi ymuno â nhw?
  - A oes angen i chi ddod ag ymgynghorwyr allanol i mewn i ddarparu hyfforddiant neu adolygiadau casglu? Gall grantiau hyfforddi dalu am y rhain neu weithio mewn partneriaeth ag amgueddfeydd eraill i rannu'r gost.

## Dylunio deunydd/rhaglen addysgol newydd

Rhaid i'r hyn a wnewch gael ei arwain gan y ddwy flaenoriaeth hyn:

- Sut mae'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd – cynefin, Meysydd Dysgu a Phrofiad, pedwar diben a hanes lleiafrifol.
- Sut mae'n cyflawni o ran yr ARWAP.

Y ffordd orau o gynhyrchu deunydd dysgu newydd effeithiol yw ei wneud mewn partneriaeth ag athrawon. Archwiliwch enghreifftiau a gynhyrchwyd mewn mannau eraill (gweler y rhestr adnoddau ar ddiwedd y ddogfen hon), a siaradwch ag arbenigwyr addysgol, yn enwedig y rhai o dreftadaeth ethnig leiafrifol.

*Nid yw'r pwyslais nawr ar yr hyn sydd gennych yn unig, ond sut, a pham mae o gennych, a beth yr ydych yn ei wneud ag o.*

- Defnyddiwch eiriau ac ymadroddion allweddol o'r cwricwlwm yn eich deunydd newydd er mwyn i athrawon eu casglu
- Dangoswch yn glir lle mae'r deunydd yn cysylltu â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad.
- Mae gan athrawon ddiddordeb arbennig mewn creu straeon o amgylch yr hyn y byddo gennych - bydd darganfod cymaint â phosibl am eich gwrthrych yn hanfodol ar gyfer hyn.
  - Oes gennych chi gasgliad o adar egsotig wedi'u stwffio? Pwy oedd yn berchen arnyn nhw a beth allan nhw ei ddweud wrthym am agweddau at fyd natur bryd hynny? A all hyn ein helpu i archwilio materion cyfoes megis dirywiad bywyd gwyllt?
  - Oes gennych chi ddilledyn megis sari? O le daeth hwn a sut y daeth i'r DU ac i'ch amgueddfa? Ydyw wedi'i wneud o sidan, a ddaeth y sidan o China?
  - Oes gennych chi gardiau post neu lythyrau o wledydd eraill? Pwy â'u hysgrifennodd a pham? Beth allan nhw ddweud wrthym am sut roedd pobl yn gweld y byd bryd hynny?
  - Oes gennych dystiolaeth o bobl o dras ethnig leiafrifol mewn eitemau megis ffotograffau, biliau sioe, rhaglenni theatr. Gellir defnyddio'r rhain i ddathlu amrywiaeth yn eich ardal dros amser.

### Datblygu deunydd newydd Holi ac Ateb

C: Os mai diben y cwricwlwm newydd yw bod yn hyblyg, gyda phob athro yn creu ei raglen ddysgu ei hun, ydw i'n gwastraffu fy amser yn datblygu fy adnoddau athrawon fy hun?

A: Nac ydych – mae sgyrsiau ag athrawon a staff amgueddfeydd sydd eisoes yn rhan o'r broses hon yn nodi'n glir bod cael nifer fach o ddeunyddiau sydd ar gael yn rhwydd yn hynod ddefnyddiol i gefnogi ymweliadau ysgol.

C: Ddylwn i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu fy adnoddau?

A: Dylech - ceisiwch gyngor gan arbenigwyr neu grwpiau diddordeb lleol neu unigolion. Dewch o hyd i rywun sydd â gwybodaeth uniongyrchol neu brofiadau byw o effaith y pwnc rydych chi'n ymchwilio iddo yn y byd cyfoes. Peidiwch â disgwyl iddynt gynrychioli pawb o'r gymuned honno. Mae gofyn iddynt yn dangos eich bod yn cymryd y pwnc o ddifrif ac eisiau dysgu.

*"Dim byd amdanom ni hebddon ni"*

*Mae Norena Shopland yn pwysleisio'r angen i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl sydd â chysylltiad agos â'r gwrthrych neu â'r stori yr ydych am ei harchwilio.*

C: Oes angen i mi dreialu unrhyw ddeunydd rwy'n ei ddatblygu?

A: Oes – taflenni gweithgaredd treialu a theithiau gydag ysgolion lleol. Cynigiwch ymweliad am ddim iddynt yn gyfnewid am adborth.

C: Ddylwn i godi tâl am ddeunydd addysgol a rhaglenni?

A: Byddwch yn hyblyg. Gellid trefnu bod teithiau i oriel a rhai taflenni gweithgaredd ar gael am ddim, ond dylid disgwyl i ysgolion dalu am fwy o ymgysylltu. Mae ymweliadau gan ysgolion yn creu incwm gwerthfawr i amgueddfeydd. Siaradwch â'ch cydweithwyr yn rhywle arall am arweiniad ar gyfraddau. Gweler Hyrwyddo eich Amgueddfa i Ysgolion t.15.

### Hanes Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a'ch Amgueddfa

Mae'r cwricwlwm newydd a'r ARWAP yn rhoi cyfle gwych i staff amgueddfeydd ailasesu eu casgliadau, gan eu gwneud yn fwy perthnasol i Gymru gynyddol amrywiol. Cyn y gallwch weithio gydag ysgolion ar yr hanesion hyn, bydd angen i chi wybod beth sydd gennych yn eich casgliadau sy'n cysylltu â hanes lleiafrifol. I'r rhai nad ydynt wedi dechrau archwilio eu casgliadau, gall fod yn syndod darganfod faint o eitemau sydd ganddynt.

- Nid amgueddfeydd trefol yn unig sydd â gwrthrychau perthnasol, ond rhai gwledig hefyd.
- Peidiwch â disgwyl i'r cysylltiad fod yn amlwg - gall chwilio gwrthrych agor byd cyfan o straeon.

Darllenwch flog Sonia Sharma YMA ar ddatwladychu dysgu mewn amgueddfeydd– un o adnoddau ar-lein GEM

Bydd gan amgueddfeydd o bob maint yng Nghymru rywfaint o dystiolaeth o fasnach a chyfoeth datwladychol ac imperialaidd. Maen nhw'n llawn o bethau sy'n adrodd straeon am lif pobl, defnyddiau a nwyddau (gan gynnwys pobl fel nwyddau) dros ganrifoedd a chyfandiroedd.

Ystyriwch yr ardal o'ch cwmpas – ar ôl pwy neu beth mae eich strydoedd neu eich adeiladau cyhoeddus wedi'u henwi?

Mae gwaith ymchwil cefndirol yn hanfodol - gwnewch hyn yn rhan o'ch datblygiad proffesiynol. Os nad ydych yn siŵr lle i edrych, ceisiwch gymorth arbenigol – defnyddiwch adnoddau ar-lein (gweler Adnoddau t.16 ar ddiwedd y pecyn cymorth hwn), ewch ar gyrsiau, cysylltwch â sefydliadau megis DARPL (Hyfforddiant Proffesiynol ar Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth) neu Race Council Cymru.

Chwiliwch YMA am unigolion sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth ac ymerodraeth yn eich ardal. Comisiynwyd yr archwiliad hwn o goffáu yn 2020 gan Lywodraeth Cymru i nodi unigolion allweddol yng Nghymru sy'n gysylltiedig ag ecsbloetio gwladychol sydd wedi'u coffáu ar gofebion megis cerfluniau, placiau, adeiladau dinesig a chyhoeddus ac ar

enwau strydoedd. Mae, hefyd, yn nodi cofebion i bobl o leiafrifoedd ethnig. Mae’n bosibl iawn y bydd ffigurau perthnasol eraill nad ydynt wedi’u cynnwys ar y rhestr ond bydd hyn yn rhoi ffynhonnell dda i chi ddechrau ohoni.

YMA mae enghraifft o ddeunydd dysgu a ddatblygwyd gan DARPL ar hanes John Ystumllyn, dyn Du a gymerwyd o Affrica ac a dyfodd i fyny yn gweithio fel garddwr ar stad ag iddi dir ger Pwllheli. Mae hwn yn ymdrin â stori John ac yn dod â hi i’r oes fodern trwy drafod sut mae rhosyn wedi’i fridio’n ddiweddar i ddathlu ei stori. Mae'r adnodd hwn yn enghraifft o sut y gellir defnyddio ffigwr hanesyddol lleol i archwilio materion yn ymwneud â hil, trawma a dathliad cyfoes o amrywiaeth yng Nghymru.

## Yr hyn i edrych amdano yn eich amgueddfa

Wrth chwilio eich catalogau, storfeydd ac arddangosiadau bydd yn rhaid i chi ymgodymu â diddordebau a geirfa'r catalogwr neu'r curadur gwreiddiol a'r defnydd o eiriau ac ymadroddion sy'n annerbyniol i ni nawr. Ymhlith y termau chwilio i'w hystyried mae:

- Caethwasiaeth, ymerodraeth, ymerodrol.
- Lleoedd oedd yn rhan o'r Ymerodraeth Brydeinig, megis India, Jamaica neu Cenia (ystyriwch hefyd bob ynys Garibïaidd unigol, yn ogystal â'r term India'r Gorllewin). Defnyddiwch yr hen enwau ar y gwledydd hyn; er enghraifft, Rhodesia yn lle Zimbabwe, a Seilón yn lle Sri Lanka.
- Deunyddiau crai a gafwyd yng Nghymru ond a ddefnyddiwyd ar gyfer ymerodraeth, megis haearn, copr, plwm a gwlân.
- Deunyddiau a nwyddau traul wedi'u mewnforio megis ifori, mahogani, sidanau a chotwm, papurau wal Tsieineaidd, siwgr a thybaco.
- Nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu i gefnogi'r defnydd o nwyddau a gynhyrchir gan bobl gaeth neu, fel arall, bobl oedd wedi'u hecsbloetio o amgylch yr ymerodraeth, megis setiau te, gefel siwgr, cadis te, offer a phibellau tybaco, cadis sbeis a melinau.
- Eitemau milwrol a phethau cofiadwy, gan gynnwys lifrai a medalau, llythyrau a anfonwyd adref, ffotograffau a chofroddion eraill. Chwiliwch am enwau brwydrau imperialaidd allweddol.
- Edrychwch ar ffotograffau o ddigwyddiadau lleol yn y gorffennol – mae’n syndod pa mor amrywiol oedd rhai tyrfaoedd, hyd yn oed ddegawdau yn ôl.
- Chwiliwch am enwau cymeriadau lleol oedd yn ymwneud â'r ymerodraeth, neu bobl a symudodd i'ch ardal o rannau o'r ymerodraeth neu'r Gymanwlad.

## Sensitifrwydd diwylliannol a phriodoldeb oed wrth ddatblygu adnoddau amgueddfa

Mae’n hanfodol eich bod yn ceisio cyngor arbenigol ac yn gwneud gwaith ymchwil manwl wrth ddatblygu deunydd dysgu ar bynciau megis caethwasiaeth trawsatlantig neu fathau eraill o gamdriniaeth imperialaidd. Gweithiwch yn agos gydag athrawon ar yr hyn sy’n briodol ar gyfer oedran eu disgyblion, yn ogystal â cheisio arweiniad gan arbenigwyr addysgol a chynrychiolwyr ethnig leiafrifol.

Gall eich gwrthrychau annog meddwl yn feirniadol ar sut i adnabod mathau o hiliaeth, ymateb iddynt, a'u gwrthweithio. Bydd cyfathrebu effeithiol gyda phartneriaid, ynghyd â gwaith ymchwil, yn sicrhau eich bod yn cael y gorau o'ch gwrthrychau gydag ysgolion.

- Efallai y bydd gan rai ohonoch ddogfennau neu wrthrychau allai achosi trallod i ddysgwyr o bob oed. Efallai na fydd rhai eitemau yn briodol ar gyfer plant ysgol gynradd ond gallent ddarparu cyfleoedd dysgu defnyddiol i ddysgwyr hŷn. Cymrwch eich arwain gan yr athro.
- Rydym yn gynyddol ymwybodol o'r heriau o addysgu grwpiau o ddisgyblion treftadaeth gymysg, yn enwedig os yw rhai yn ddisgynyddion i ddioddefwyr erchylltra imperialaidd. Gweithiwch gydag athrawon i archwilio sut i ddefnyddio'ch gwrthrychau yn briodol.
- Gwyddom bellach y gall archwilio hanes lleiafrifol trwy brism caethwasiaeth hanesyddol *yn unig* fod yn niweidiol. Gall anwybyddu cymhlethdodau dyfnach yn hanes ymerodraeth a gwladychol, ymyleiddio neu dargedu grwpiau penodol, ac efallai na fydd yn berthnasol i rai cymunedau ethnig leiafrifol sydd gennych o'ch cwmpas. Gall hefyd, yn anfwriadol, dynnu eich sylw oddi wrth ymgysylltu â chymunedau a straeon eraill.
- Nid yw hyn yn golygu y gallwch ei anwybyddu – mae'n hanfodol eich bod yn deall bod effaith caethwasiaeth yr Iwerydd wedi gadael canlyniadau dwfn a thrawmatig sy'n ymestyn hyd heddiw.
- Wrth archwilio hanes caethwasiaeth neu hawliau sifil, peidiwch ag edrych at America yn unig am adnoddau– mae gennym yr hanes a'r deunydd yma yng Nghymru i'ch cefnogi. Gweler y rhestr adnoddau ar ddiwedd y ddogfen hon a cheisiwch gyngor gan sefydliadau megis DARPL neu Race Council Cymru.
- Chwiliwch YMA am fuddiolwyr caethwasiaeth trawsatlantig. Mae'r Ganolfan Astudio Cymynroddion Caethwasiaeth Brydeinig wedi llunio cronfa ddata fawr o unigolion, teuluoedd, ystadau a busnesau sydd â chysylltiadau uniongyrchol ac agos.
- Dyma rai adnoddau ar gyfer addysgu caethwasiaeth hanesyddol (gweler y rhestr o adnoddau ar ddiwedd y pecyn cymorth hwn am ragor o ddolenni):
  - Hwb - Gwefan adnoddau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd - 'Caethwasiaeth a Chymru: y gorffennol a'r presennol
  - Amgueddfa Caethwasiaeth Ryngwladol Lerpwl (ISL) - Resources for schools a phedwar gweithdy
  - *Understanding Slavery Initiative* – resources for primary and secondary schools
  - *National Museums Scotland* – Atlantic slave trade learning resources a ysgrifennwyd gan *museums for schools*

### Astudiaethau Achos 2 a 3 – Proud Valley a New Worlds

Mae'r ddwy astudiaeth achos hyn yn cynnig enghreifftiau gwych o waith partneriaeth effeithiol ac allbynnau creadigol. Ymhlith y pethau i gadw llygad amdanynt mae:

- Pwy oeddynt yn gweithio â nhw fel partneriaid a sut oeddynt yn cydweithio.
- Sut y gwnaethant blethu materion gwladychiaeth, caethwasiaeth a hanes ethnig leiafrifol trwy gydol eu prosiectau.
- Beth oedd yr allbynnau.
- Pwy oedd yn eu hariannu.

Gofynnwch i chi'ch hun:

- Sut fyddwn i wedi mynd i'r afael â'r prosiectau hyn?
- Sut maent yn bodloni cynefin, y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, y pedwar diben, a hanes ethnig leiafrifol?

### Astudiaeth Achos 2 – Proud Valley

- Prosiect mewn partneriaeth gyda Pharc Treftadaeth Rhondda, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Llyfrgell Glowyr De Cymru ac Ysgol Gynradd Penyrenglyn, Treherbert oedd hwn.
- Archwiliodd hanes yr actor, y canwr a'r actifydd gwleidyddol Du Americanaidd Paul Robeson, ei rôl yn y ffilm o'r un enw, Proud Valley, ac effaith ymweliad Robeson â de Cymru. Ei nod oedd archwilio hanes ethnig leiafrifol oedd yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gymuned leol trwy ysbryd o undod a chyfiawnder cymdeithasol.
- Dewiswyd Robeson oherwydd ei weithgarwch hawliau sifil yn America (ganed ei dad i gaethwasiaeth) a'i gysylltiadau cryf â glowyr de Cymru. Ffurfiodd gysylltiadau cryf â'r glowyr yn dilyn ei ymweliad â nhw, gan eu cefnogi trwy streiciau. Yn eu tro, roedd y glowyr yn ei gefnogi pan gollodd ei basport a chael ei labelu'n gomiwnydd yn America. Roedd hanes cydnabyddedig o dosturi a theyrngarwch, ac roedd y partneriaid yn gobeithio y byddai'r cyhoedd yn ymgysylltu ag ef i wella cydlyniant rhwng cymunedau lleol heddiw.
- Creodd Ysgol Gynradd Penyrenglyn gyfres o fideos am Paul Robeson ac am eu myfyrdodau ar frwydr gymdeithasol ac undod.
- Cyfrannodd nifer o fyfyrwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol eu profiadau bywyd o hiliaeth i'r gwaith ymchwil cefndirol.
- Roedd allbynnau eraill y prosiect yn cynnwys arddangosfa, baner ar undod a llyfryn.
- Ariannwyd y prosiect gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru.
- Cynhaliwyd yr arddangosfa yn wreiddiol rhwng Awst a Thachwedd 2022, ond oherwydd ymatebion hynod gadarnhaol gan y cyhoedd, cafodd yr arddangosfa ei hadfer rhwng Ionawr a Mawrth 2023.
- Diolch yn fawr i Esta Lewis o RHP am ddarparu'r wybodaeth hon.

### Astudiaeth Achos 3 – Bydoedd Newydd

Prosiect cydweithredol oedd hwn rhwng Race Council Cymru, Festival of Humanities, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chastell Penrhyn ac ysgol gynradd leol. Mae'n dangos potensial creadigol archwilio cysylltiadau gwladychol trwy wrthrychau dan themâu mawr bydoedd newydd a bod yn ddynol. Er bod hwn wedi'i leoli yng Nghastell Penrhyn, eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyrion Bangor, gogledd Cymru, gallai gweithgareddau fel hyn ddigwydd mewn unrhyw amgueddfa.

Mae'r fideo isod yn dangos gwerth gwybod eich casgliad, gweithio mewn partneriaeth, a defnyddio'r cwricwlwm newydd i archwilio'r gorffennol yn greadigol. Mae'n annog meddwl am dreftadaeth leol mewn cyd-destun byd-eang.




## Astudiaeth Achos 4 – Pwy oedd Joe Taylor?

Nid oes yn rhaid i chi weithio mewn partneriaeth i ddatblygu adnodd addysgu gwych. Datblygwyd hwn gan Ddiwylliant Conwy ac nid oedd yn rhan o brosiect mwy. Roedd yn seiliedig ar ddarganfod ffotograff grŵp yn eu casgliad oedd yn cynnwys dyn Du - Joe Taylor. Bu'r tîm yn ymchwilio'n eang i greu proffil o Joe, o le y daeth a'r hyn a wnaeth yng ngogledd Cymru.

Trwy chwilio am adnoddau lluosog, nid yn unig eu rhai nhw, canfuwyd ei fod wedi ei eni yn Baltimore, Maryland, wedi bod yn focsiwr proffesiynol a'i fod wedi mynd ymlaen i hyfforddi tîm pêl-droed lleol Llandudno. Mae'r cofnodion yn datgelu bod Joe wedi byw bywyd gweithgar yn Llandudno, gan weithio yn ei gymuned newydd a'i chefnogi orau y gallai

Mae gwerth yr adnodd hwn yn cynnwys:

- Ymchwilio i waith yn dda gyda digon o dystiolaeth.
- Dim honiadau i wybodaeth arbenigol am yr hyn nad ydynt yn ei wybod. Wrth ystyried a brofodd hiliaeth, maent yn dweud yn syml, 'Does gennym ddim syniad'.
- Digon o le i athrawon archwilio mudo rhyngwladol, chwaraeon, hil a hanes ethnig leiafrifol yn greadigol trwy amrywiaeth o gyfryngau.

Cliciwch YMA i gael gwybod pwy oedd Joe Taylor.

## Iaith – geiriau a thermau

- Mae pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a'i acronym BAME, yn ymadrodd cyffredin sy'n cael ei ddefnyddio'n aml ac sy'n cael ei herio'n fawr ar gyfer pobl nad ydynt yn wyn a phobl wyn anfrodorol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd cyngor gan y grwpiau y mae'r term hwn yn honni eu bod yn eu cynrychioli ac mae'n argymell defnyddio'r geiriau'n llawn (ac nid BAME), ond mae'n ystyried y gellir defnyddio 'lleiafrifoedd ethnig' fel talfyriad. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, gofynnwch i'r grwpiau neu'r unigolion yr ydych yn gweithio gyda nhw sut yr hoffent gael eu hadnabod. Gellir dod o hyd i ganllawiau llywodraeth y DU ar derminoleg YMA.
- Ceir trafodaeth ehangach ar hil ac iaith gan Gymdeithas y Cyfreithwyr YMA .

## 4. MONITRO A GWERTHUSO

Mae'r gwaith hwn yn newydd i bron pawb, staff yr amgueddfa ac athrawon fel ei gilydd. Anaml y caiff gwerthusiad ei wneud yn effeithiol ond gall roi gwybodaeth ddefnyddiol ac amserol ar sut yr ydych yn dod ymlaen a lle i fynd nesaf.

Gosodwch dargedau cyraeddadwy i chi'ch hun o fewn amserlen gyfyngedig sy'n cynnwys tasgau, megis pryd i siarad ag athrawon, llunio adnoddau drafft, gweithio gyda grŵp lleiafrifoedd ethnig a chynnal gweithdy peilot.

**Gweler tudalen 23** am dempled gwerthuso sy'n ymdrin â thasgau dros gyfnod o chwe mis.

## 5. HYRWYDDO EICH AMGUEDDFA I YSGOLION

- Mae gan GEM nifer o adnoddau rhagorol i gefnogi ysgolion sy'n ymestyn allan i ysgolion. DYMA ddolen i un ohonynt.
- Paratowch e-bost (dwyieithog) a'i anfon o amgylch ysgolion yn eich ardal. YMA ceir rhestr o holl ysgolion Cymru a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, er sylwer, nid yw'n rhoi cyfeiriadau e-bost, er bod y rhestr hon yn cynnwys cyfeiriadau a rhifau ffôn. Defnyddiwch y rhestr hon i weld pa ysgolion sydd yn eich ardal, yna chwiliwch amdanynt ar-lein i gael e-byst. Bydd gan bob awdurdod lleol restr o'r ysgolion y mae'n gyfrifol amdanynt ar ei wefan; fodd bynnag, ni fydd pob un yn cynnwys ysgolion annibynnol ar eu rhestrau.
- I'r rhai nad ydynt wedi trefnu ymweliadau ysgol o'r blaen, bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth ymarferol fel y gall athrawon gynllunio eu hymweliad yn llwyddiannus:

    - Amseroedd a lleoliad
    - Sut i archebu (ar-lein/ffôn/e-bost)
    - Ydych chi'n cynnig ymweliad rhagarweiniol am ddim i athrawon
    - Cost fesul ysgol neu ddisgybl
    - Cost fesul taflen weithgaredd/taith dywys/gweithdy
    - Mannau bwyta neu gyfleusterau a thoiledau
    - Maint y grŵp y gall eich safle gynnwys
    - Unrhyw fannau addysgol pwrpasol
    - Cod ymddygiad
    - Parcio i fysus a chyfleusterau i yrwyr
    - Cyngor i arweinwyr grŵp ar gyfleusterau diogelwch a chymorth cyntaf
    - Asesiad risg – paratowch un eich hun a gofynnwch i ysgolion gynnal eu rhai eu hunain

## 6. GEIRIAU AC YMADRODDION

**ALl Awdurdod lleol**. Mae gan bob awdurdod yng Nghymru'r arweinydd strategol ar gyfer addysg plant a phobl ifanc. Mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod pob plentyn yn cyflawni ei botensial.

**Anawsterau ymddygiad** Ymddygiad sy'n tarfu ac yn aflonyddgar ac fe all gynnwys gorfywiogrwydd a diffyg canolbwyntio.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** Mae gan berson ADY os yw'n derbyn addysg a hyfforddiant a'i fod yn cael mwy o anhawster wrth ddysgu na'r mwyafrif o bobl o'r un oedran neu os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol neu gyflwr iechyd cynyddol.

**Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASD).** Anabledd datblygiadol a achosir gan wahaniaethau yn yr ymennydd. Mae plant a phobl ifanc ag ASD yn aml yn cael problemau gyda chyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol ac mae ganddynt ymddygiadau neu ddiddordebau cyfyngedig neu ailadroddus.

**ARWAP** Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

**Arweinir gan y plentyn** Pan gynigir y cyfle i blentyn ddewis ei weithgaredd dysgu ei hun

**Bagloriaeth Cymru**. Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi profiadau ehangach na rhaglenni dysgu traddodiadol, i weddu'n well i anghenion amrywiol pobl ifanc. Mae dyfarniad Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar gyfuniad o gymwysterau, profiadau a sgiliau.

**CADW** Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru

**Camau cynnydd** Mae Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 yn diflannu ac yn cael eu disodli gan gwricwlwm di-dor ar gyfer plant 3 i 16 oed. Mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o sut mae datganiadau o'r hyn sy'n bwysig (gweler isod) yn cydgysylltu ag archwilio a deall testunau a materion . Bydd camau cynnydd, ar gyfer plant 5, 8, 11, 14, ac 16 oed nawr yn cael eu defnyddio i asesu cynnydd plentyn.

**CAU** Cynllun Addysg Unigol. Dogfen gyfreithiol yng Nghymru sy'n disgrifio anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc, y cymorth sydd ei angen arno, a'r canlyniadau yr hoffai eu cyflawni.

**Ceisiwr lloches** Unigolyn sydd wedi gwneud cais am ganiatâd i aros yn y DU ond nad yw wedi cael y statws hwn eto gan y Swyddfa Gartref.

**Celfyddydau Mynegiannol** Celf, dawns, drama, ffilm, cyfryngau digidol a cherddoriaeth

**Comisiwn Plant Cymru** Swydd annibynnol a sefydlwyd i fod yn hyrwyddwr hawliau plant yng Nghymru.

**Cyflawniad** Mae Estyn (gweler isod) yn mesur cyflawniad yn ôl pa mor dda y mae dysgwyr yn ei wneud mewn perthynas â'u gallu ac yn ôl y cynnydd a wnânt.

**Cyfnodau Allweddol** Mae Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4, sydd wedi diffinio addysgu yn ôl oedran mewn ysgolion ar draws y DU ers sawl blwyddyn, yn diflannu (mae CA 1 eisoes wedi'i ddisodli gan y Cyfnod Sylfaen). Gweler Camau Cynnydd am yr hyn sy'n disodli'r categorïau hyn.

**Cyfnod Sylfaen** Diffinio darpariaeth addysgol yng Nghymru ar gyfer dysgu blynyddoedd cynnar. Mae wedi disodli Cyfnod Allweddol 1.

**Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)** y grŵp proffesiynol o swyddogion awdurdodau lleol sy'n atebol am swyddogaethau addysg statudol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

**Cymhwysedd Digidol** Defnydd critigol a chyfrifol o dechnolegau digidol ar gyfer dysgu, gwaith a chyfranogiad mewn cymdeithas ac ymgysylltu â'r technolegau hyn.

**Cynefin** Mae wedi'i nodi o fewn fframwaith y cwricwlwm newydd fel naratif a ddylai wau drwy'r holl brofiadau dysgu a ddarperir i ddysgwyr. Nid lle yn yr ystyr ddaearyddol yn unig yw Cynefin, ond lle o arwyddocâd diwylliannol, cymdeithasol a hanesyddol sydd wedi llunio ac sy'n parhau i siapio'r gymuned sy'n byw ynddo. Bydd darparu cyfleoedd i ddysgwyr archwilio eu hardaloedd lleol yn rhoi dealltwriaeth gyfoethog a gwerthfawr o'u cynefin a sut mae wedi helpu i lunio eu cymunedau a'u rhyngweithio â chymunedau ehangach, y genedl a'r byd.

**Cynnwys Dilys** Yn adlewyrchu ac yn ymgorffori gwerthoedd treftadaeth ddiwylliannol lle yn gywir.

**Cynorthwy-ydd Addysgu**. Mae'n cefnogi athrawon ac yn helpu plant gyda'u datblygiad addysgol a chymdeithasol y tu mewn i'r ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi. Mewn ysgolion uwchradd, gelwir cynorthwywyr addysgu yn aml yn gynorthwywyr cymorth dysgu.

**Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC).** Y bwrdd arholi sy'n darparu arholiadau, adnoddau a dysgu proffesiynol i ysgolion ac athrawon yng Nghymru.

**Dalgylch** Ardal ddaearyddol ddiffiniedig y mae ysgol yn cymryd ei disgyblion ohoni.

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)** Proses sy'n berthnasol i'r holl staff, sy'n cynnwys cynyddu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth staff.

**Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig** Mae gan bob un o Feysydd Dysgu a Phrofiad y cwricwlwm newydd (gweler uchod) ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o feysydd arwyddocaol, gan alluogi dysgwyr i ailymweld â chysyniadau allweddol sawl tro mewn gwahanol leoliadau, fel eu bod yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl. Bydd dysgwyr yn gweithio tuag at ddyfnhau eu dealltwriaeth gysyniadol wrth iddynt ymdrin â syniadau o ystod o safbwyntiau ar draws meysydd pwnc lluosog.

**Datrys Problem** Diffinio problem; pennu'r achos; nodi a gweithredu datrysiad.

**Dinasyddiaeth Fyd-eang** Yn ogystal â bod yn ddinesydd eich cymuned neu genedl leol, y syniad ei bod, hefyd, yn bosibl bod yn ddinesydd y byd. Mae dinasyddion byd-eang yn cydnabod bod pobl mewn gwahanol wledydd yn gynyddol gysylltiedig â'i gilydd trwy fasnachu, cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth.

**Dwyieithrwydd** Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu mewn dwy iaith. Yng Nghymru mae dwyieithrwydd yn ymwneud â'r Gymraeg a'r Saesneg, fel ieithoedd swyddogol Cymru.

**Dyniaethau** Pynciau sy'n astudio agweddau ar gymdeithas ddynol a diwylliant (e.e. hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol ac ati)

**Dysgu cyfunol (a elwir weithiau yn ddysgu hybrid) –** mae'n cyfuno dysgu seiliedig ar leoliad â phrofiadau addysgol ar-lein ac o bell.

**Dysgu Estynedig** Prif gaffaeliad gwybodaeth a sgiliau trwy gyfarwyddyd neu astudiaeth y tu allan i'r ystafell ddosbarth draddodiadol

**EDI (EDII)** Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (Menter)

**eFSM** Cymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

**Estyn** Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ei hariannu ganddi. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

**Fframwaith Asesu** Offeryn ar gyfer monitro dilyniant disgyblion yn yr ysgol

**GEM Cymru** Y Grŵp Addysg mewn Amgueddfeydd, Cymru

**Gwaharddiadau cyfnod penodol cyfwerth ag amser llawn**. Cyfnod gwahardd penodol pan fo plentyn yn cael ei symud dros dro o'r ysgol am uchafswm o 45 diwrnod ysgol mewn unrhyw un flwyddyn academaidd.

**LOTC** Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth

**Llythrennedd** Y set o sgiliau sy'n galluogi unigolyn i ymgysylltu'n llawn â chymdeithas a dysgu trwy wahanol ffurfiau ar iaith ac ystod o destunau.

**(LlC) Llywodraeth Cymru**. Mae llywodraethu addysg wedi'i ddatganoli yng Nghymru ers 1999, ynghyd â meysydd polisi cysylltiedig eraill, megis polisi'r Gymraeg a llywodraeth leol. Mae hyn wedi arwain at greu system addysg unigryw i'r un yng ngwledydd cyfansoddol eraill y DU.

**(Y) Pedwar Diben** Gweledigaeth a dyhead a rennir ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc

**Rhaglen Anelu at Ragoriaeth** Menter gan Lywodraeth Cymru i wella pontio a lefelau cynnydd disgyblion pan fyddant yn symud o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.

**SAU** Sefydliad Addysg Uwch, megis prifysgol.

**Seicolegydd addysg.** Mae seicolegwyr addysg yn seicolegwyr cymhwysol sy'n gweithio o fewn y system addysg, yn y gymuned a chydag unigolion a theuluoedd. Maent yn ymwneud â dysgu a chyflawniad plant, eu lles a'u datblygiad ar lefel unigol, dosbarth, ysgol ac awdurdod lleol. Mae eu dulliau yn cynnwys ymgynghori, asesu, ymyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol, hyfforddiant ac ymchwil.

**Sgiliau annatod** Creadigrwydd ac arloesedd, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu, meddwl yn feirniadol a datrys problemau

**Sgiliau Critigol** Galluoedd gweithredol sydd eu hangen / sy’n ofynnol mewn galwedigaethau presennol.

**Targedau cyrhaeddiad** Y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae disgwyl i ddisgyblion o wahanol allu ac aeddfedrwydd feddu arnynt erbyn diwedd pob Cyfnod Allweddol o'r cwricwlwm cenedlaethol.

**TGCh** Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

**Ysgol Gymunedol** Ysgol yng Nghymru a Lloegr a ariennir yn llawn gan yr ALl a lle mae gan yr ALl gontractau cyflogaeth ar gyfer staff.

**Ysgol Arbennig Gymunedol** Ysgol wladol yng Nghymru a Lloegr sy'n eiddo'n gyfan gwbl i'r ALl ac a gynhelir ganddo ac sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

## 7. ADNODDAU A DOLENNI

Mae asiantaethau'r llywodraeth, sefydliadau addysgol, darparwyr deunyddiau addysgol arbenigol, grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac unigolion wedi ymateb yn gyflym i'r cwricwlwm newydd, gan gynhyrchu ystod eang o adnoddau. Mae adnoddau eraill ar gael gan y rhai sy'n gwneud gwaith tebyg y tu allan i Gymru.

Gall fod yn frawychus chwilio sawl gwefan am rywbeth a allai fod o ddefnydd i chi. Dyma ddetholiad byr o wefannau sy'n ymdrin â phynciau, megis y cwricwlwm newydd, yr ARWAP, addysgu hanes pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac addysg amgueddfeydd. Mae rhai gwefannau yn cynnig cyngor, eraill gyrsiau neu weithdai, ac eraill adnoddau. Bydd y rhain yn eich helpu wrth i chi ffurfio eich darpariaethau addysgol eich hun.

**Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

- Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i wneud Cymru yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030.
- Amlinellu polisïau'r llywodraeth ar gyfer newid ar draws nifer o'i hadrannau, gan gynnwys diwylliant a threftadaeth.
- https://www.gov.wales/anti-racist-wales-action-plan

**Addysgwyr Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol (BAME) Cymru**

- Rhan o Rwydwaith Cenedlaethol Addysgwyr BAME
- https://www.bameedwales.org/

**Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a Chynefin yn y cwricwlwm newydd**

- Cynhyrchwyd adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru a arweiniodd at ei gwneud yn orfodol cynnwys hanes ethnig leiafrifol yn y cwricwlwm newydd
- Mae'n cynnwys dros 53 o argymhellion ynghylch newid, all fod o ddefnydd i staff amgueddfeydd
- https://www.gov.wales/working-group-black-asian-and-minority-ethnic-communities-contributions-and-cynefin-new-curriculum

**Hanes Bobl Ddu Cymru**

- Yn dysgu hanes pobl Ddu a gweithgareddau creadigol ledled Cymru. Gwybodaeth ac adnoddau.
- https://blackhistorywales.org.uk/

**Canolfan Astudio Etifeddiaeth Caethwasiaeth Brydeinig**

- Cronfa ddata gynhwysfawr o gysylltiadau â chaethwasiaeth drawsatlantig
- https://www.ucl.ac.uk/lbs/

**Cefn Gwlad Gwladychol**

- Prosiect ysgrifennu a hanes dan arweiniad plant am gysylltu safleoedd treftadaeth â hanes y Caribî a'r East India Company.
- Adnoddau ar waith creadigol a gynhyrchwyd gan blant mewn ymateb i ddysgu am gaethwasiaeth ac ymerodraeth.https://colonialcountryside.wordpress.com/

**DARPL (Hyfforddiant Proffesiynol ar Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth)**

- Hwb dysgu ac adnoddau proffesiynol ar gyfer codi ymwybyddiaeth hiliol amlddisgyblaethol gyda'r cwricwlwm newydd i Gymru. https://darpl.org/

**Cyngor y Gweithlu Addysg**

- Yn cefnogi athrawon a staff cymorth dysgu yng Nghymru
- Wedi cynhyrchu canllawiau ar addysgu hanes lleiafrifoedd ethnig yn y cwricwlwm newydd
- https://www.ewc.wales/site/index.php/en/

**Amrywiaeth Ethnig mewn Ysgolion: Ffeithiau Allweddol**

- Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru
- Ystadegau dysgwyr a staff addysgol o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig
- https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-12/ethnic-diversity-in-schools.pdf

**Gŵyl Dyniaethau**

- Yn trefnu 100oedd o ddigwyddiadau bob blwyddyn dan faner Bod yn Ddynol. Mae hwn yn weithgaredd cydweithredol rhwng prifysgolion a phartneriaid diwylliannol a chymunedol i archwilio beth mae bod yn ddynol yn ei olygu.
- Sawl enghraifft o weithgareddau yn y gorffennol ac awgrymiadau am gyllid
- https://www.beinghumanfestival.org/

**Hwb**

- Gwefan Llywodraeth Cymru ar gyfer popeth sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cynnwys canllawiau statudol ac adnoddau.
- https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales

**Amgueddfa Caethwasiaeth Ryngwladol Lerpwl**

- Deunydd cefnogi i athrawon – enghreifftiau defnyddiol ar gyfer amgueddfeydd.
- Resources for schools a four workshops

**Canllaw Cymdeithas y Gyfraith i derminoleg ac iaith hil ac ethnigrwydd**

- Canllawiau ar gyfer defnyddio geiriau, ymadroddion ac acronymau sy'n gysylltiedig â hil ac ethnigrwydd
- https://www.lawsociety.org.uk/topics/ethnic-minority-lawyers/a-guide-to-race-and-ethnicity-terminology-and-language

**Amgueddfeydd ac Orielau Leeds – Datwladychu'r Cwricwlwm**

- Blog wedi'i ysgrifennu'n glir ar yr hyn y mae staff wedi'i wneud i ymgysylltu ag athrawon a deunydd dysgu dylunio
- https://museumsandgalleries.leeds.gov.uk/engagement/learning-engagement/decolonising-the-curriculum/

**Cymdeithas yr Amgueddfeydd**

- Canllawiau ac adnoddau ar arferion datwladychu mewn amgueddfeydd
- Yn cynnwys adnoddau ar reoli cyfathrebu negyddol
- https://www.museumsassociation.org/campaigns/decolonising-museums/decolonising-practice/

**National Museums Scotland**

- Adnoddau i athrawon ar sut i ddefnyddio eu hamgueddfeydd i archwilio caethwasiaeth yr Iwerydd.
- Atlantic slave trade learning resources

**Casgliad y Werin Cymru**

- Gwefan rhad ac am ddim yn cynnwys casgliad cyfoethog o dreftadaeth Cymru: ffotograffau, dogfennau, recordiadau sain a fideo a straeon.
- Yn meddu ar nifer o adnoddau ar hanes ethnig leiafrifol yng Nghymru
- https://www.peoplescollection.wales/

**Race Council Cymru (RCC)**

- Corff ymbarél yn cynrychioli grwpiau cymunedol lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru. Hwb gwybodaeth ac adnoddau.
- https://racecouncilcymru.org.uk/

**Ysgolion yng Nghymru**

- Rhestr Llywodraeth Cymru o'r holl ysgolion sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru
- Rhestr gynhwysfawr yn cynnwys ysgolion gwladol ac annibynnol
- Manylion cyswllt yn cynnwys cyfeiriad a rhif ffôn – nid yw'n cynnwys e-byst
- https://www.gov.wales/address-list-schools

**Secret Life of Objects – Pecyn Adnoddau Dysgu (PDF)**

- Cynhyrchwyd gan y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg i ysgogi ffyrdd creadigol o archwilio gwrthrychau.
- Sawl enghraifft o sut i ddefnyddio gwrthrychau i gefnogi dysgu cwricwlwm eang.
- https://www.monlife.co.uk/wp-content/uploads/2019/12/ArtSEdNetwork_The-Secret-Life-of-Objects-English-V2.pdf

**Y Fasnach Gaethwasiaeth a'r Ymerodraeth Brydeinig: awdit o goffâd yng Nghymru**

- Rhestr o ffigurau allweddol sy'n cael eu coffáu yng Nghymru gyda chysylltiadau ag ymerodraeth a chaethwasiaeth.
- Hefyd yn rhestru cofebion i unigolion o leiafrifoedd ethnig arwyddocaol.
- https://www.gov.wales/slave-trade-and-british-empire-audit-commemoration-wales

**Understanding Slavery Initiative**

- Enghreifftiau defnyddiol o ddeunyddiau addysgu – adnoddau ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd

## 8. Templed monitro a gwerthuso chwe mis

| Cyn pen nifer y misoedd | Tasg | Cyflawnwyd | Sylwadau a gweithredoedd |
|---|---|---|---|
| 1 | Wedi adolygu'r ddarpariaeth addysgol bresennol | D/N | |
| 1 | Wedi siarad â phedwar athro am eu cynlluniau cwricwlwm | D/N | |
| 2 | Wedi cynnal archwiliad o’r safle a’r staff | D/N | |
| 2 | Wedi cynnal adolygiad o gasgliadau | D/N | |
| 3 | Wedi mynd i o leiaf ddwy sesiwn hyfforddi allanol | D/N | |
| 3 | Wedi adolygu enghreifftiau o fannau eraill | D/N | |
| 3 | Wedi ymestyn allan i gymuned ethnig leiafrifol i gyd-adolygu gwrthrych/au | D/N | |
| 4 | Wedi datblygu taflen weithgaredd ddrafft a'i threialu gyda'r ysgol | D/N | |
| 4 | Wedi sicrhau bod yr holl staff yn cael gwybod am y cynnydd yn rheolaidd | D/N | |
| 5 | Wedi gweithio gydag un ysgol i ddatblygu prosiect partneriaeth. | D/N | |
| 6 | Wedi cyflwyno prosiect partneriaeth gyda'r ysgol. | D/N | |
| 7 | Wedi adolygu (yn fewnol a chydag athrawon) y chwe mis diwethaf a nodi ffyrdd ymlaen ar gyfer y chwe mis nesaf | D/N | |